

Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban (SSSC)

Gweithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol cymwys, a myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar gyrsiau gradd cymeradwy yn yr Alban

Ffôn: 0845 603 0891

Gwefan: www.sssc.uk.com

Goruchwyllo'r rheolyddion

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn goruchwyllo cyrff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn y DU a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn asesu eu perfformiad, yn cynnal archwiliadau, yn craffu eu penderfyniadau ac yn adrodd i'r Senedd. Yn ogystal, rydym yn pennu safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cadw cofrestrau gwirfoddol ar gyfer galwedigaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan achredu'r rhai sy'n eu cyflawni.

I gysylltu â'r Awdurdod, ffoniwch **020 7389 8030** neu trowch at www.professionalstandards.org.uk.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn derbyn gofal a thriniaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n bodloni'r safonau cywir

Gwnewch yn siŵr eich bod yn derbyn gofal a thriniaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n bodloni'r safonau cywir.

Pwy sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol?

Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio yn y DU gofrestru gydag un o'r 12 o reolyddion a restrir yn y daflen hon. Mae'r sefydliadau hyn wedi cael eu sefydlu i'ch diogelu.

Pwy sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol?

Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys:

- ceiropractyddion
- deintyddion
- meddygon
- bydwragedd
- nyrsys
- optegwyr
- osteopathiaid
- fferyllwyr
- ffisiotherapyddion a
- gweithwyr cymdeithasol.

Rydym yn eich diogelu trwy gadw cofrestrau o weithwyr proffesiynol sy'n bodloni ein safonau. Os ydych chi eisiau gwybod a yw rhywun wedi cofrestru gallwch ein ffonio neu chwilio ein cofrestrau ar-lein. Gallwch gael ein manylion yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Er mwyn ymarfer mewn un o'n proffesiynau, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol ddangos eu bod yn bodloni ein safonau a chofrestru gyda'u rheolydd. Os nad ydyn nhw wedi'u cofrestru ac yn dal i ymarfer, maen nhw'n torri'r gyfraith a gallan nhw gael eu herlyn.

Ewch i un o'n gwefannau os ydych am wybod mwy am sut rydym yn rheoleiddio proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol, neu i sicrhau bod gweithiwr proffesiynol wedi'i gofrestru.

Pa safonau gallaf eu disgwyl?

Mae'n rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol gyrraedd y safonau a roddir yn y cod ymddygiad neu yn y cod ymarfer ar gyfer eu proffesiwn. Mae'n rhaid eu bod yn:

- meddu ar y sgiliau cywir i drin neu ofalu amdanoch chi
- dangos urddas a pharch i chi
- gweithredu'n broffesiynol ac yn onest.

Pryd dylwn i gysylltu â chi ynglŷn â gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol?

Os ydych yn pryderu am allu neu ymddygiad rhywun sydd wedi eich trin neu wedi gofalu amdanoch chi, dylech gwyno yn y man y gwnaethoch chi dderbyn y gofal neu'r driniaeth. Efallai y byddwch am siarad â'r person dan sylw, neu â'i gyflogwr, i weld a allan nhw unioni pethau.

Fodd bynnag, os credwch fod yr hyn sydd wedi digwydd mor ddifrifol fel ei fod yn codi cwestiynau am allu gweithiwr proffesiynol i ddarparu triniaeth neu ofal diogel, dylech siarad â ni. Gallwn ymchwilio i gwynion a chymryd camau ar eich rhan. Mewn rhai achosion, gallwn ni atal gweithiwr proffesiynol rhag gweithio yn y DU i gyd neu mewn rhan ohoni.

Rheolyddion a'r proffesiynau y maen nhw'n eu rheoleiddio

Cyngor Gofal Cymru

Gweithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol cymwys, a myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar gyrsiau gradd cymeradwy yng Nghymru
Ffôn: 0845 070 0248 Gwefan: www.ccwales.org.uk

Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol (GCC)

Ceiropractyddion
Ffôn: 0845 601 1796 Gwefan: www.gcc-uk.org

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)

Deintyddion, technegwyr deintyddol clinigol, hylenyddion deintyddol, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, therapyddion deintyddol, therapyddion orthodontig
Ffôn: 0845 222 4141 Gwefan: www.gdc-uk.org

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC)

Meddygon
Ffôn: 0161 923 6602 Gwefan: www.gmc-uk.org

Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC)

Optegwyr (optometryddion ac optegwyr dosbarthu)
Ffôn: 020 7580 3898 Gwefan: www.optical.org

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC)

Ortheopathiaid
Ffôn: 020 7357 6655 Gwefan: www.osteopathy.org.uk

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GphC)

Fferyllwyr, technegwyr fferyllfeydd a fferyllfeydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
Ffôn: 020 3365 3400 Gwefan: www.pharmacyregulation.org

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)

Therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion / podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, dosbarthwyr cymhorthion clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptwyr, parafeddygon, ffisiotherapyddion, seicolegwyr ymarferwyr, prosthetyddion / orthotyddion, radiograffyddion, gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr a therapyddion lleferydd ac iaith
Ffôn: 0845 300 6184 Gwefan: www.hcpc-uk.org

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

Nyrsys a bydwragedd
Ffôn: 020 7333 9333 Gwefan: www.nmc-uk.org

Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (NISCC)

Gweithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol cymwys, a myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar gyrsiau gradd cymeradwy yng Ngogledd Iwerddon
Ffôn: 028 9041 7600 Gwefan: www.niscc.info

Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI)

Fferyllwyr a fferyllfeydd yng Ngogledd Iwerddon
Ffôn: 028 9032 6927 Gwefan: www.psni.org.uk